**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Justin Albert
Cyfarwyddwr Cymru
Tŷ'r Offeiriad
Tŷ Tredegar
Casnewydd
NP10 8YW

18 Gorffennaf 2019

Annwyl Justin,

Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn y Cynulliad Cenedlaethol yn dod i ddiwedd ymchwiliad i rôl y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn gwneud y gwaith hwn drwy ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

- Pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru wedi bod o ran gwella cyfranogiad a mynediad at ddiwylliant i bobl mewn tlodi?
- Pa mor effeithiol y mae ymdrechion cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru (sef Cyngor y Celfyddydau, yr Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a llywodraeth leol wedi bod i ddefnyddio diwylliant i drechu tlodi?
- Pa effaith mae rhaglen Cyfuno Llywodraeth Cymru wedi'i chael ar ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael â thlodi?
- Pa mor effeithiol mae rhaglenni arloesi Cyfuno wedi bod wrth ysgogi cydweithredu lleol?

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwiliad hwn ar gael ar wefan y Pwyllgor yma.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf 2019, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Farwnes Kay Andrews, a oedd wedi ysgrifennu adroddiad blaenorol ar ddiwylliant a thlodi ar gyfer Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Farwnes Andrews ei bod yn teimlo y gallai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wneud mwy o waith i ymgysylltu â chymunedau, gan ddweud:

> The National Trust is a large and powerful and rich organisation in Wales. It could do more at a local level, I think, to be identifying the local historic environment and why it's important, for example. It could actually play a bigger role, I think, in our communities.

Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r sesiwn ar wefan y Cynulliad yma.

Er mwyn i'r Pwyllgor allu deall gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn y maes hwn yn well, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech ymateb i'r Pwyllgor, gan amlinellu:

- Pa waith y mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ei wneud yng Nghymru i fynd i'r afael â thlodi (gan gynnwys effeithiau tlodi) ac allgáu cymdeithasol?
- Sut y mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru yn gweithio gyda chymunedau i'w cynnwys yn ei gwaith a sicrhau bod gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berthnasol iddynt?

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech roi'r wybodaeth hon erbyn 16 Awst 2019. Bydd Clerc y Pwyllgor yn barod iawn i drafod y mater hwn ymhellach os dymunwch, a gallwch gysylltu ag ef drwy ffonio 0300 200 6585. Diolch ymlaen llaw am hwyluso gwaith y Pwyllgor yn y maes hwn.

Yn gywir,



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

Justin.Albert@nationaltrust.org.uk

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

08 Awst 2019

Bethan Sayed AC
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg
a Chyfathrebu'r Senedd
Stryd Pierhead
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Bethan

Diolch yn fawr am eich cyfathrebiaeth gan y pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2019.
Rydym yn hapus iawn i ymateb i'r cwestiynau a godwyd, ac i ddatblygu ein partneriaeth iaith gyda chi ac aelodau eraill o'r pwyllgor er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth well o swyddogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'i heffaith yng Nghymru.
Rydym wedi cymryd rhan lawn a brwdfrydig yn y gwaith a ffurfiodd ran o adroddiad y Farwnes Andrews ar Ddiwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru, i Lywodraeth Cymru yn 2014. Rydym yn ymwybodol cyn cymryd rhan yn y comisiwn y gallwn wneud mwy i ddefnyddio ein hadnoddau a'n gofodau er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol.
Ers cyhoeddi adroddiad y Farwnes Andrews *Diwylliant a Thlodi* rydym wedi bwrw ati i gychwyn rhaglenni strategol Cymru a'r DU a elwir yn:

- Croeso i Bawb
- Pum llwybr er Lles
- Y tir, yr Awyr Agored a Natur.

Chwaraeasom ran hanfodol yn cychwyn y rhaglenni hyn yn y DU yn seiliedig ar ein profiad a'n dysgu yng Nghymru a'r ddealltwriaeth a ddaw gyda'r rhaglenni o ran gwella ehangach.
Mae gan dîm arweinyddiaeth Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru (YG Cymru) ddyhead clir i wella perthnasedd a chynwysoldeb ei lleoedd ledled Cymru. I'r perwyl hwn, mae wedi buddsoddi yn y rhaglen Croeso i Bawb er mwyn cyrchu a chefnogi pob agwedd ar y sefydliad ledled Cymru gyda'r bwriad o:

- gael ein cydnabod fel sefydliad amrywiol a chynhwysol
- bod yn berthnasol ac y mae cymdeithas yn cydseinio â hi

Dechreuodd y cyfnod cychwynnol ym Mehefin 2019. I ymateb i ofyn lleol, mae eiddo'n cynnal a darparu gweithgareddau fydd yn berthnasol i'w cynulleidfa leol. Rydym yn ymwybodol nad ydym yn casglu a chofnodi'r gweithgareddau hyn yn ddigon effeithlon ledled Cymru – dylai'r rhaglen hon fynd i'r afael â hynny.

Swyddfa De Ddwyrain Cymru Casnewydd/
South East Wales Office Newport
Tŷ Offeiriad/Priest House
Ty Tredegar/Tredegar House
Casnewydd/Newport
De Cymru/South Wales
NP10 8YW
Ffôn/Tel: +44 (0)1633 811659
www.nationaltrust.org.uk

Llywydd / President: EFB Tywysog Cymru/
HRH The Prince of Wales
Dirprwy Gadeirydd/Deputy Chairman: Orna NiChionna
Cadeirydd Cymru/Wales Chair: Linda Tomos
Cyfarwyddwr Cymru/Director for Wales: Justin Albert

Swyddfa gofrestredig / Registered office:
Heelis, Kemble Drive, Swindon
Wiltshire SN2 2NA
Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number 205846

THE SUNDAY TIMES 100 BEST NOT-FOR-PROFIT ORGANISATIONS TO WORK FOR 2018

**Felly, beth mae hyn yn ei olygu i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru?**

- Defnyddio ein lleoedd i helpu i gyflawni amcan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Agor ein gerddi, ein cestyll a'n tai mewn dull newydd sy'n croesawu pobl ac yn adrodd stori y maent yn ei gweld yn berthnasol i'w bywydau.
- Cynnig mwy o gyfleoedd gyda ni i bob sector o gymdeithas – er enghraifft, ein partneriaeth gyda Mencap Cymru, i wella cyfleoedd gwirfoddoli ymhlith pobl a chanddynt anabledd dysgu drwy brosiect Criw Clên.
- Byddwn yn cofleidio diwylliant Cymru a'r Gymraeg yn ei holl gyfoeth.
- Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru'n adnabyddus am ei chroeso i bawb sy'n ymwneud â ni a bod gennym uchelgais y gellir ei chyflawni, nid yn unig o groesawu pawb ond yn rhan o'r cwbl a wnawn.

I ni, rhaid i agor drysau a chynnig cyfleoedd olygu hynny, bob dydd ac i bawb.
Mae gennym warchodaeth o lawer o leoedd anhygoel ac adnoddau a all beri i hynny ddigwydd. Ond gwyddom y gallwn ond fod yn wirioneddol lwyddiannus yn y fenter hon os yw pobl Cymru'n cofleidio ein gweledigaeth ac yn gweithio gyda ni i'w gwireddu.
Rydym hefyd wedi cydnabod bod gweithio mewn partneriaeth yn galluogi defnyddio dulliau cydgysylltiedig yng Nghymru sy'n cael effaith sylweddol, gadarnhaol ar fynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol.

**Beth mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru yn ei warchod a beth sydd ganddi at ei defnydd:**

- Rydym yn gwarchod wythfed rhan o safleoedd o ddiddordeb arbennig yng Nghymru ac mae 30,000 o hectarau o'n tir yn gynefin blaenoriaeth a gaiff ei reoli er budd natur yn bennaf.
- 46,000 o hectarau o'r lleoedd o harddwch eithriadol yng Nghymru. Mae 97% o'r lleoedd wedi'u cofrestru'n dir amaethyddol a gofrestrwyd.
- 157 milltir o arfordir
- Copa uchaf Cymru a Lloegr lle rydym yn ffermio defaid a gwartheg Eidion Du Cymreig er budd y dirwedd, bwyd a bywyd gwyllt
- Ystâd Ysbyty, yr ystâd fwyaf y mae'r Ymddiriedolaeth yn berchen arni - mae'r Ystâd yn cynnwys 52 fferm a'u tenantiaid sy'n siarad Cymraeg
- Ardaloedd o bwysigrwydd rhyngwladol yn cynnwys y Migneint sy'n cael ei gydnabod am ei storfa garbon ac adar gwyllt, yn cynnwys y gylfinir
- Mae gennym ragor na 200,000 o aelodau yn byw yng Nghymru ac mae rhagor na 1.6 miliwn o ymwelwyr yn ymweld â ni bob blwyddyn.
- Ni yw gwarcheidwaid 18 o'r cestyll, y tai, y gerddi a safleoedd treftadaeth harddaf a deg o'r 14 mynydd sy'n 3000 troedfedd neu'n uwch, yng Nghymru.

Fel un o elusennau mwyaf y DU, mae gennym ymrwymiadau pwysig o ran gwarchod tir a threftadaeth ac rydym yn destun rheoliadau a disgwyliadau'r Comisiwn Elusennol i ddefnyddio ein hincwm yn ddoeth ac yn ein pwrpas craidd a ddiffiniwyd.
Mae'r Comisiwn Elusennol yn cydnabod ein pwrpas craidd: Gwarchod lleoedd o ddiddordeb hanesyddol neu harddwch naturiol er budd parhaol y genedl ledled Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr.
Fel elusen annibynnol, nid ydym yn derbyn unrhyw gyllid uniongyrchol gan y Llywodraeth ac mae llawer o'r lleoedd yr ydym yn eu gwarchod, fel safleoedd arfordirol a chefn gwlad, am ddim.
Er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni'r disgwyliadau penodol niferus sydd arnom, rydym yn dibynnu ar gefnogaeth ac ewyllys da ein haelodau ffyddlon i'n galluogi i barhau i ofalu am rai o drysorau mwyaf cymdeithas, ar ran pawb.

Ar ben hyn, rydym yn gynyddol yn ymrwymo adnodd sylweddol a neilltuo staff, mewn eiddo ac yng Nghymru, er mwyn datblygu'r lles cyhoeddus y gallwn ei gyflawni drwy raglenni fel Croeso i Bawb.

**Beth yw Croeso i Bawb?**
Mae gwaith Croeso i Bawb yn gonglfaen hanfodol, strategol i ni yng Nghymru.

Fel Cyfarwyddwr Cymru, rwyf wedi mynegi ein huchelgais fel a ganlyn:
*Rwyf am i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru gael ei hadnabod am ein dull o gyrraedd pawb sy'n rhyngweithio â ni ac sydd ag uchelgais cyraeddadwy i groesawu pawb ac i fod yn rhan o'r cwbl a wnawn. Wrth bawb, rwy'n golygu pawb, NID dim ond 'i rywun' sy'n dewis dod atom. Mae angen i ni estyn allan yn weithredol i bobl sy'n gwybod dim amdanom, nid aros iddyn nhw ddod atom ni.*
*Rwyf am i'r Ymddiriedolaeth arwain ar hyn. Rwyf am i ni bartneru'n rhagweithiol gyda sefydliadau Cymreig eraill i wireddu ein cenhadaeth ein hunain ac i bawb arall yn ehangach.*

Rydym yn diffinio Croeso i Bawb drwy:

**Uchelgais**

- Bod yn gynhwysol a chroesawgar; cysylltu ag ysbrydoli pobl i wneud gwahaniaeth
- **Deilliannau a nodau**
- Diwylliant ac amgylchedd y mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu
- Mwy o berthnasedd i gymdeithas
- Cynyddu amrywiaeth ymhlith ein pobl a'n sail cefnogwyr

Mae'r rhain, pan welir nhw yng nghyd-destun ein dibenion craidd, lawer iawn yn uwch na'n nodau a'n hamcanion craidd, ond eto, maent yn dangos ein hawydd i gyflawni er lles pawb yn ein cymdeithas.
Rydym wedi penodi rheolwr rhaglen llawn amser i'n rhaglen Croeso i Bawb yng Nghymru i roi hwb i'r gwaith yma a'i wreiddio fel maes gwaith cyson yn ein heiddo ledled Cymru. Yn Atodiad 1, rydym wedi eitemeiddio detholiad o rai o'r partneriaethau a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ein heiddo yng Nghymru. Mae llawer mwy yn yr arfaeth a byddwn yn cael ymgyrch fawr ar les yn 2020. Bydd hyn yn agor ein lleoedd a'n gofodau i gynulleidfaoedd mor amrywiol â phosibl, yn annog pobl i ddefnyddio gofodau treftadaeth yng nghefn gwlad a'r amgylchedd adeiledig yn rheoliad, o ran eu lles personol ac ar y cyd.
Rydym yn llwyr werthfawrogi nad ydym mewn sefyllfa i fynd i'r afael â thlodi ariannol yng Nghymru, ond gallwn leddfu rhywfaint o'r effaith hwnnw drwy gydweithio ag eraill er mwyn canfod a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gael mynediad i'n lleoedd, yn ogystal â herio'r canfyddiad 'nad yw'r lleoedd yma i ni'. Fodd bynnag, rydym yn cynnig Aelodaeth Addysgol i grwpiau ysgolion.
Hefyd, gwelwn dlodi fel tlodi gofod a lleoedd i'w mwynhau.
Gwyddom fod bywyd yn mynd yn gynyddol heriol, yn arbennig felly i'r rheini sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac allgáu cymdeithasol ac ni allwn ddileu hynny heb weithio mewn partneriaeth ag eraill a'r llywodraeth.
Ond sylweddolwn yma ac yn awr y gallwn sicrhau bod gofod a'r gallu i fwynhau'r gofod hwnnw ar gael i bawb.
Ni ddylai cyfoeth gofod a lle gael ei gyfyngu bellach i haen gul o'n cymdeithas.
Yn yr 21ain Ganrif dylai'r ffordd fod yn glir i bawb sydd am fwynhau lleoedd arbennig.

Yn ddiweddar, amlinellodd ein Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Hilary McGrady ein meddwl ynglŷn â sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berthnasol yn yr $21^{ain}$ Ganrif: *Dywedodd: “byddaf yn sicrhau y bydd pob dim wedi ei wreiddio i’n pwrpas elusennol, sef sicrhau bod cymdeithas yn elwa o’r lleoedd yma.”*

Ein nod yw gweithio i wireddu hynny. Cynaliasom gyfres o sgyrsiau yn yr Eisteddfod y llynedd i ymgysylltu â dylanwadwyr pwysig yng Nghymru i helpu i siapio’r ffordd y defnyddiwn ein hadeiladau hanesyddol a’r dreftadaeth genedlaethol gyfoethog yn ein gofal. Credwn yn gryf na ddylai pobl fod â chywilydd yn gyfiawn yn adfer ymdeimlad o berchenogaeth o’r lleoedd hyn a symud o’r syniad er mai’r cyfoethog oedd berchen ar y lleoedd hyn ar un adeg, y gellir ond eu defnyddio, eu parchu neu eu gwerthfawrogi gan y cyfoethog. Rydym yn awyddus i’n holl ymwelwyr deimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu cysylltu, a’u hysbrydoli gan eu profiad pan ddônt i ymweld â’n heiddo.

Rwy’n gobeithio y bydd yr eglurhad, y dull a amlinellwyd uchod a’r wybodaeth yn yr atodiadau, yn ddigon i chi i allu asesu effaith a swyddogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru o ran y ddau gwestiwn a godwyd gennych:

- Pa waith y mae’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ei gyflawni yng Nghymru er mwyn mynd i’r afael â thlodi (yn cynnwys effaith tlodi) ac allgáu cymdeithasol;
- Sut mae’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru’n cyd-weithio â chymunedau i ennyn eu diddordeb yng ngwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a bod y gwaith yn berthnasol iddynt.

Fodd bynnag, os hoffech chi neu aelodau eraill o’r pwyllgor fwy o wybodaeth neu os ydych am ymweld a chyfarfod â mi’n bersonol yn un o eiddo’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru, buaswn yn hapus trefnu hynny.

**Dymuniadau gorau**



**Justin Albert**
**Cyfarwyddwr Cenedlaethol Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru**

**Atodiad 1:**
**Partneriaethau mewn Eiddo ac yng Nghymru gyfan**
**Mencap Cymru**: Prosiect peilot sy'n galluogi pobl a chanddynt anawsterau dysgu i gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli ar safleoedd treftadaeth. Mae canlyniadau'n cynnwys cipolwg ar ofynion cymorth a dull priodol i drydydd sector gynnwys pobl a chanddynt anableddau dysgu; cefnogi gwaith Mencap ar ddealltwriaeth a mynd i'r afael â stigma.

**Palasau Hwyl**: Yr YG i gynnal llysgennad Palas Hwyl yng Ngogledd Cymru er mwyn cefnogi dyhead Palasau Hwyl '*diwylliant wrth galon cymuned a chymuned wrth galon diwylliant'*. Prosiect i'w gynnal am bum mlynedd o Hydref 2019.

**Prifysgol Caerlŷr a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol:** Ar hyn o bryd rydym yn cynnal gwaith ymchwil weithredol er mwyn deall sut gallwn fod yn fwy perthnasol a sicrhau fod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu. Mae ein gwaith yng Nghymru fel a ganlyn:

| **Eiddo** | **Profi rhagdybiaeth** |
|---|---|
| Castell y Waun | Os ydym yn datblygu darpariaeth benodol i deuluoedd a chanddynt blant ar y sbectrwm awtistiaeth ac yn dysgu mwy am sut gellir diwallu anghenion y teuluoedd hynny'n well, gallwn wreiddio'r dysgu hwnnw yn holl agweddau a phrofiadau ein safleoedd a dod yn gyfeillgar i awtistiaeth. |
| Castell Powis | Os ydym yn grymuso ein timau i weithio'n gydweithredol gyda phobl heb gynrychiolaeth ddigonol i waith ymchwil a rhannu straeon nas adroddwyd o'r blaen am ein lleoedd, byddwn yn deall beth sy'n gyrru perthnasedd iddynt a chynyddu ein perthnasedd i bawb yn well. |
| Tŷ Tredegar<br>Erddig | • Os byddwn yn deall anghenion (a rhwystrau mynediad at) pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a thangynrychiolir a chymunedau sydd ag incwm is sy'n byw gerllaw ein heiddo yn well, a sut hoffent weld ein lleoedd, gallwn ddod yn fwy perthnasol iddynt a'u bywydau. |

**Pas Mynediad at Les yng Nghymru**: Rydym yn ymwybodol fod yna rwystrau ariannol a chanfyddiadol yn atal rhai cymunedau rhag cael mynediad i'n lleoedd, boed yn dalu-am-fynediad neu eiddo yn yr awyr agored. Er mwyn chwalu rhai o'r rhwystrau hyn, rydym yn peilota Pas Mynediad Lles i ddarparu llwybrau mynediad hawdd mynd atynt i bobl nad ydynt yn mynd i'n lleoedd yn arferol ond a fyddai'n elwa o'r hyn y mae gan y lleoedd hyn i'w cynnig. Mae'r Pas Mynediad at Les yng Nghymru yn rhoi mynediad i grwpiau (elusen gofrestredig neu grŵp gwirfoddol / cymunedol sefydledig) sy'n cynnal gweithgareddau i gefnogi iechyd a lles eu cyfranogwyr gyda mynediad i holl leoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru. Bydd y pas yn ddilys am 12 mis ac am £45, gall y grŵp a enwyd gael mynediad i hyd at 50 o bobl i bob Eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru.
Gan mai peilot yw hwn, mae'r niferoedd yn gyfyngedig ac rydym ond yn targedu dwy ardal yng Nghymru ar hyn o bryd. Rhaid i grwpiau fod o fewn 10 milltir o Erddig, Wrecsam neu Fwthyn Ogwen, Eryri. Bu'r peilot ar waith am dri mis ac eisoes mae 10 grŵp wedi manteisio ar y cynnig.

Cerddwyr Nordig Erddig
Hosbis Tŷ'r Eos / Nightingale House
Siop Wybodaeth Pobl Ifanc Wrecsam
Cymorth Canser y Coluddyn Gogledd Cymru

Sefydliad y Merched yr Wyddgrug
Cartrefi Gofal Lindan House a Hollybank
Cymorth Gofalwyr NEWCIS
Clwb Dydd Llun y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (RVS) prosiect cynhwysiant cymdeithasol
Canolfan Lôn Abaty
CAIS - Parkland Place

**Perthynas â Fusion:** Cefnogir y rhain yn lleol a bydd yn amrywio, yn dibynnu ar flaenoriaethau lleol grŵp Fusion a'r eiddo dan sylw. Ar hyn o bryd, ceir cysylltiadau cryfach gyda grwpiau Fusion Conwy a Gwynedd.
Roedd YG Cymru'n rhan o **Grŵp Atgyfeirio adnoddau Gwirfoddoli Fusion** i ddatblygu adnoddau ar-lein i reolwyr gwirfoddol.
**Banciau bwyd YmddiriedolaethTrussell:** Buom yn cydweithio ag Ymddiriedolaeth Trussell i gynnal cyfres o fentrau banciau bwyd ledled Cymru ar gyfer y Nadolig. Cynaliasom y rhain yn ein heiddo yn Erddig, Penrhyn, Plas Newydd, Dinefwr, Tŷ Tredegar a Sir Benfro.

Yn lleol mae'n anodd gwahanu agwedd effaith cymdeithasol ein gwaith a'n hymwneud â chymunedau. Felly rydym wedi gwahaniaethu rhwng:

1. Effaith cymdeithasol sy'n cynnwys ymwneud â'r gymdeithas, cynhwysiant a chydnabyddiaeth o rwystrau economaidd, cymdeithasol, yn cynnwys effaith ar iechyd a lles;
2. Cydweithio â chymunedau ar berthnasedd.

**Effaith cymdeithasol:** sy'n cynnwys ymwneud â'r gymdeithas, cynhwysiant a chydnabod rhwystrau economaidd, cymdeithasol, yn cynnwys effaith ar iechyd a lles. Y mae ein gwaith yng Nghymru fel a ganlyn:

| Eiddo | Prosiectau sy'n bodoli eisoes |
|---|---|
| **Castell y Waun, ger Wrecsam** | **Gardd Gegin:** Fe'i defnyddir gan grwpiau sy'n cefnogi pobl sy'n cael eu hallgáu ar hyn o bryd, neu ddim mewn sefyllfa i gyrchu a chyfrannu mewn lleoliad mwy ffurfiol. Hefyd, oedolion sy'n cael cymorth ac sy'n defnyddio'r ardd ar sail lled annibynnol i helpu eu hadferiad/adsefydlu. Ymhlith y grwpiau cyfredol mae Coed Celyn, y Gwasanaeth Ieuenctid, timau rhoi cymorth i oedolion Awdurdodau Lleol; tîm cefnogi Syndrom Down.<br><br>**Gwersyll yn y Castell:** partneriaeth gyda Homestart Wrecsam a Thîm Iechyd Parc Caia. Mae'r bartneriaeth yn cydweithio i ddarparu profiad gwyliau yn yr ystâd yn ehangach a lleoliad hanesyddol i deuluoedd lleol sy'n profi caledi. Mae'r gwersyll yn ei ail flwyddyn ac mae wedi dyblu yn ei faint.<br><br>Mae llawer o fannau chwarae distrwythur y tu allan i'r rhwystr talu yn yr eiddo. Mae aelodau Gwasanaeth Chwarae Wrecsam wedi cymeradwyo'r rhain. Perthynas â Thŷ'r Eos / Nightingale House i roi mynediad i'n gofod i'r rheini fydd yn elwa. |
| **Erddig, ger Wrecsam** | **Prosiect Academïau Gwyrdd (GAP):** Gwirfoddoli Ieuenctid yn targedu cymunedau sy'n anodd eu cyrraedd. Dyma brosiect tair blynedd sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, cymunedau a grwpiau lleol i warchod gofodau gwyrdd sy'n golygu rhywbeth iddynt a thargedu'r rheini fyddai'n elwa ac na fyddai'n cymryd rhan fel arfer.<br><br>Mae'r prosiect yn gweithio gydag amrywiaeth o grwpiau tebyg i **Inspire** (cefnogi pobl ifanc sy'n hunan-niweidio); **dynamic** (pobl ifanc a chanddynt anableddau); **Coleg Cambria** (mynediad at gyrsiau cyflogaeth); **Partneriaeth Parc Caia** (mae |

| | |
|---|---|
| | Parc Caia yn uchel ar indecs amddifadedd Cymru); ceidwaid trefol (clwb ieuenctid Erddig unwaith y mis); y gwasanaeth Ieuenctid (tri chlwb ieuenctid, pob un mewn ardal o dan anfantais, Smithfield, Pentre Gwyn a Maes Gwyn).<br><br>Cwrs y prosiect:<br>Mae **899 o bobl ifanc** wedi cymryd rhan. Cofnodwyd **3900 o oriau** ac mae **58 o unigolion** wedi parhau i wirfoddoli yn y tymor hir: "rhoddodd GAP yr ymdeimlad o ddyletswydd a phwrpas i mi roedd ei angen arna i yn ystod un o gyfnodau anoddaf fy mywyd. Mae'n gwneud i mi adael y tŷ, i fod yn weithredol a chyfarfod â ffrindiau pan oedd ynysu i'w weld fel dewis mor ddeniadol" gwirfoddolwr GAP (18)<br>Crëwyd **dwy ardd gymunedol** gan gyfranogwyr: "Credais fod garddio yn edrych yn hwyl felly ymunais yn yr hwyl. Mae gan fwyafrif plant yr ardal hon ddiddordeb mewn Xbox a PlayStation, ond mae'n well gen i fod tu allan" Dan (14)<br>**14 o ofodau gwyrdd lleol wedi'u gwella**: "Fy hoff ran o wirfoddoli gyda GAP yw bod yn rhan o'r grŵp, mae pawb yn eich annog i roi cynnig ar bethau newydd... ro'n i am wneud rhywbeth dros yr amgylchedd, ac o'n i'n gwybod o fy niwrnod cyntaf mai dyma'r lle iawn i fi." Caitlin (14)<br>Gwnaed **arolygon** ar **dri phwll, dau fath o goetir, un ddôl 25m o wrychoedd, un trawstoriad ymlusgiad (x 6):** "Roedd gwneud yr arolygon bywyd gwyllt wedi rhoi profiad gwerthfawr i mi mewn maes yr hoffwn i weithio ynddo, fyddai'n gwneud i mi fod yn fwy cyflogadwy yn y dyfodol." Georgia (18)<br>**Mae'r project hefyd wedi cynnal tair taith breswyl ac un gwersyll gwyllt.**<br><br>**Melin Puleston:** Mae sawl defnydd i ran o'r ystâd ehangach, gan gynnwys defnyddio Ystafell Ddosbarth Coetiroedd fel lleoliad ar gyfer eu rhaglen crefftau gwyllt, clwb y cartref a'r ysgol, ceidwaid iau a sesiynau crefftau byw yn y gwyllt; a chartref i'r Prosiect Gap; cyfleoedd 'galw heibio' i gymunedau lleol.<br><br>**Clwb Ieuenctid Erddig:** Dathlodd y clwb hwn ei ben-blwydd yn 20 oed ym mis Gorffennaf. Caiff y clwb ei redeg mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Offa a Gwirfoddolwyr Gweithwyr Ieuenctid Erddig. Ei nod yw darparu gofod diogel i bobl ifanc leoli gyfarfod, tyfu a chael hwyl.<br><br>Nid oes tâl aelodaeth ond mae'r clwb yn gofyn i bob aelod gyfrannu rhywbeth at Erddig drwy wirfoddoli. Ers agor ym 1999 maent wedi adeiladu llwybr hawdd drwy Goed y Llys, codi llawer o ffensiau, clirio'r afon, plannu coed a helpu mewn gweithgareddau. A hwythau wedi derbyn grant o £300 yn ddiweddar gan y Gwasanaeth Ieuenctid i ddathlu'r gwaith cadarnhaol y buont yn ei gyflawni, mae'r bobl ifanc wedi gofyn am gael crysau-T gyda'r geiriau #bemoremeyoungvolunteer arnynt. Byddant yn cael y rhain ym mis Awst.<br><br>Mae'r clwb yn ceisio trwytho pwysigrwydd bod yn garedig, rhoi heb ddisgwyl derbyn, gofalu am yr amgylchedd a gwerthfawrogi natur ym mhob dim a ddaw heibio – pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid.<br><br>Dychwelodd un aelod blaenorol o'r clwb ieuenctid fel aelod o staff dros dro tra oedd yn astudio: *'Roedd Clwb Ieuenctid Erddig yn wahanol i gymaint o glybiau ieuenctid eraill. Yn achos llawer o glybiau ieuenctid cewch eich hebrwng a'ch codi ar y diwedd heb ddim yn y canol. Yn Erddig fe gaech ymdeimlad o'r hanes a'r cysylltiad â'r bobl a fu yno yn y gorffennol. Roedd e wir yn le cadarnhaol a chyfforddus i fod ynddo ac fel person ifanc, golygai hynny y gallech fagu eich hyder. Yr oed yna, gallai rhai sefyllfaoedd wneud i chi deimlo'n ansicr iawn, ond byddech bob amser yn teimlo'n gyfforddus yng Nghlwb Ieuenctid Erddig.'* |

| | |
|---|---|
| | **Partneriaeth Coleg a Phrifysgol Glyndŵr**: Cynnig yr eiddo fel lle i ddatblygu sgiliau ymarferol.<br><br>**Ysgolion Eco**: Defnyddio Erddig fel lleoliad ar gyfer sesiynau hyfforddi athrawon ac mae eu tîm ymgysylltu yn creu gweithgaredd ymgysylltu ar sail hyn. |
| **Gerddi Bodnant, Llandudno** | Yn gweithio gyda Grŵp Cyn-filwyr Digartref ar hyn o bryd sy’n cynnig lleoliadau wythnosol o dan oruchwyliaeth yn yr eiddo.<br><br>(2015) helpodd garddwyr Cymdeithas Cyn-filwyr a Ddallwyd (Blind Veterans Association) greu gardd synhwyrau yn eu canolfan yn Llandudno. Mae’r eiddo’n parhau i roi cymorth i gynnal a chadw hyn.<br><br>Gweithio gyda Chymdeithas MS lleol i greu rolau gwirfoddoli addas.<br><br>**Rhyddhau'r adain**: Roedd gweld archif teulu McLaren yn ddiweddar yn adrodd stori cyfraniad Laura McLaren i bleidlais i ferched nad oedd yn wybyddus o’r blaen. Bu’r eiddo’n gweithio gydag amrywiaeth o grwpiau lleol yn cynnwys *Amnesty International*, grwpiau gwrth-gaethwasiaeth a grŵp theatr gymunedol i roi dehongliad cyfoes o stori bwysig. |
| **Eryri a Llŷn** | *Wedi peilota rhaglen ymarfer corff yn yr awyr agored fel rhan o Bartneriaeth Eryri gyda’r Parc Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru.*<br>**Prosiect Dalgylch Uwch Conwy:** Gan gydweithio â grŵp theatr cymuned leol, cynhaliodd y grŵp gyfres o sesiynau ysgol a chymuned yn seiliedig ar fytholeg yr Afanc er mwyn codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth a thestunau amgylcheddol yn gysylltiedig â’r dalgylch. Roedd y prosiect hefyd yn gyfle i brofi dull allgymorth a gafodd groeso cynnes.<br><br>Yn 2017/18 bu’r tîm yn gweithio hefyd gyda Conwy Fusion i gynnig sesiynau blasu gwirfoddoli i grwpiau sy’n gysylltiedig â Fusion.<br><br>Cynaliasom ddigwyddiad rhanddeiliaid er mwyn datblygu partneriaethau ac i ymgynghori ar waith arfaethedig. Roedd amrywiaeth o gyrff iechyd, treftadaeth a thwristiaeth a grwpiau cymunedol lleol yn bresennol.<br><br>Gwaith parhaus gyda’r gymuned leol i ganfod a rhoi cymorth i lwybrau mynediad i’r sefydliad.<br><br>**Bwythyn Ogwen**: Partneriaeth gyda’r Outward Bound – mynediad at gyfleoedd a bod yn yr awyr agored.<br>Peilot gydag Unllais, y cyngor lleol a gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg Conwy i ddarparu rhaglen Awyr Agored er lles pobl ifanc sydd mewn perygl o salwch meddwl e.e. hunan-niwed. Yn dilyn adborth gan bobl ifanc a ofynnodd am gael mynediad, cefnogodd gynghorydd lleol hyn. Cafwyd derbyniad da i sesiwn undydd yn 2018; awydd i gyd-greu rhaglen yn y tymor hir gyda phobl ifanc ond bu’n anodd ei sefydlu.<br><br>**Porth y Swnt, Aberdaron:** Adeilad hygyrch i ymwelwyr sy’n darparu stori leol ryngweithiol wedi’i datblygu gyda chymorth y gymuned leol. |
| **Castell Penrhyn, Bangor** | **Job centre Plus (perthynas anffurfiol) Cynllun Ymwybyddiaeth Anabledd**: Llwybrau i gyflogaeth / denu gwirfoddolwyr posibl a dangos dealltwriaeth o anghenion. |

| | |
|---|---|
| | **Lôn yr Abaty** (iechyd meddwl ac adfer): Lleoliadau gyda chwmnïau Arlwyo a lleoliadau gwaith i lwybrau i waith drwy wirfoddoli<br><br>**Ymwybyddiaeth o Ddementia**: Hyfforddi staff yn lleol i fod yn ffrindiau dementia.<br><br>**Trac:** Cydweithio â Trac i roi cyfleoedd yn yr eiddo i bobl ifanc. Prosiect sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n ymddieithrio rhag addysg ac mewn perygl o ddod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yw TRAC 11-24. https://www.groundworknorthwales.org.uk/latest/projects/trac/<br><br>Ar hyn o bryd yn rhan o'r Bartneriaeth Llechi a chefnogi cynnig Treftadaeth y Byd.<br><br>**Artistiaid preswyl**: Prosiect tair blynedd oedd hwn yn gweithio gydag artistiaid gwahanol bob blwyddyn. Sefydlodd yr artistiaid hyn berthnasau newydd rhwng Castell Penrhyn â'r gymuned. Yn ôl y curadur roeddent wedi:<br><br>'*cynnwys staff, gwirfoddolwyr Penrhyn, grwpiau cymuned ac unigolion fel cyfranogwyr a chyd-grewyr: Prifysgol Bangor, Coleg Menai, Côr Meibion y Penrhyn, Chwarel Lechi'r Penrhyn, preswylwyr Maesgeirchen, Caffi Coed y Brenin, Siop Ogwen, cymuned artistig Gogledd Cymru, Ysgol Dyffryn Ogwen a'r gymuned leol ym Methesda a'r cyffiniau. Drwy gynnwys artistiaid, dysgasom ffyrdd newydd o gyflwyno'r hanes oedd yn wybyddus i ni; canfuom ffyrdd newydd i animeiddio gwrthrychau yn ein gofal; dechreuasom ddealltwriaeth newydd o'r swyddogaeth y gallai Penrhyn ei chwarae yn ei gymuned.'*<br><br>**Cefn gwladol trefedigaethol**: Dyma brosiect ysgrifennu a hanes mewn partneriaeth â Peepal Tree Press a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n cael ei arwain gan blant. Mae Castell Penrhyn yn rhan o'r rhaglen ehangach ac yn gweithio gyda churaduron, beirdd ac artistiaid eraill ochr yn ochr ag ysgol leol. Bydd plant wrth ganolbwyntio ar eitemau'r casgliad yn eu hail-gyflwyno mewn ffordd sy'n rhoi pwyslais ar y cysylltiad trefedigaethol. Mae'r gwaith yma'n mynd rhagddo.<br><br>Mae Castell Penrhyn hefyd yn rhan o raglen ehangach yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i drawsnewid y profiad ymwelwyr ac adeiladu ar berthnasedd gydag ymwelwyr a'r gymuned ehangach. Fel rhan o hyn, mae'r eiddo yn y broses o recriwtio ar gyfer swydd ymgysylltu â'r gymuned. Bydd yn canolbwyntio'n arbennig ar greu cysylltiadau a gweithio gyda sefydliadau a grwpiau allanol. Rhennir y dysgu o'r gwaith hwn ledled lleoedd eraill yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. |
| **Plas Newydd a Sir Fôn** | **Palasau Hwyl 2017 a 2018:** Targedu grwpiau lleol ac ysgolion. Hefyd, hwyluso gweithdy Palasau Hwyl i roi cymorth i sefydliadau lleol eraill i gynnal Palas Hwyl. Roedd Storiel, Pontio a grwpiau llai eraill yn bresennol.<br><br>**Y Sgowtiaid a'r Afancod:** Gwersylla ar y safle yn ystod yr haf.<br><br>**Cemlyn:** Galw i mewn ac ymgynghoriad i rannu agweddau naturiol a threftadaeth y safle yn ogystal ag effaith yn sgil newid arfordirol.<br><br>**Gogledd Sir Fôn:** Sefydlu partneriaeth gyda darparwr awyr agored gyda'r bwriad o ennyn diddordeb cymunedau ac ysgolion lleol drwy weithgareddau awyr agored wrth ddysgu am fywyd gwyllt, newid yn yr hinsawdd a llygredd. |

| | |
|---|---|
| **Gŵyr** | Mae'r tîm yn gweithio gydag amrywiaeth o grwpiau lleol yn cynnwys YMCA; Gweithredu dros Ddibyniaeth a Chaethiwed (Welsh Centre for Action on Dependency and Addiction); Prosiect Pobl Ifanc Sengl Ddigartref Abertawe; Grŵp Awyr Agored Abertawe (Grŵp cerdded lleol fu'n cymryd rhan yn casglu sbwriel); Clwb Ieuenctid Blaen y Maes; wyth o ysgolion cynradd lleol, ysgolion uwchradd a cholegau.<br><br>Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd i 17 o grwpiau gwirfoddoli gweithwyr.<br>**Dinas Noddfa (Abertawe)**; dyma strategaeth newydd ac mae ond megis cychwyn. Mae'r grŵp yma am ddod a ffoaduriaid i'r Gŵyr i fwynhau'r hyn sydd gennym. Cydnabuwyd bod gan y ffoaduriaid ar gyfartaledd wedi talu am fwyd a biliau ayb) tua £3 yr wythnos yn weddill i'w wario. Mae hyn yn cyfyngu'n fawr iawn ar yr hyn a allant ei wneud, sut maent yn cyfarfod â phobl, creu perthnasau ac adeiladu cymuned. Felly, byddwn yn gyrru grwpiau yn ein bws mini allan i'n tir neu'n rhoi ein hamser i sicrhau y cânt brofiad ar y tir.<br>**Crisis -** buom yn adeiladu ar ein perthynas gyda'r elusen ddigartref hon yn Abertawe a buont ar rai o'r teithiau tywys gyda'n ceidwaid. Bellach maent yn awyddus i wirfoddoli ac am ganolbwyntio ar eu tasgau i feithrin sgiliau ymysg pobl sy'n bwriadu ail afael mewn swydd / gamu ar yr ysgol tai. Felly byddwn yn canolbwyntio ar dasgau tebyg i walio cerrig sych ac yn y blaen, gyda nhw.<br><br>**Fferm Gymunedol Dinas Abertawe -** bu'r berthynas hon yn adeiladu'n raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn cymryd grwpiau o bobl y flwyddyn i gyflawni rhai tasgau gwirfoddoli fel y gallant ehangu eu sgiliau Fe ddônt i'n caeau i gasglu gwair ar gyfer eu fferm. Ariannwyd y dolydd gwaith gan HL-F, felly, ni allwn werthu'r gwair am y 10 mlynedd gyntaf. Fel arfer gall pobl gasglu'r hyn maent eu hangen. Mae gallu cynnig gwair i'r fferm ddinas sy'n brin iawn o arian yn deimlad braf iawn ac maent wirioneddol yn gwerthfawrogi hyn. |
| **Penfro** | **Mencap Sir Benfro:** Cynnal cegin, gerddi ac ystafell de Ystagbwll. |
| **Tŷ Tredegar, Casnewydd** | **Prosiect Golchdy a chynllun Ymgysylltu â'r Gymuned**: Mae gwaith cyfredol yn cynnwys Gofodau sy'n Tyfu; Cylch Dinesig; Prosiect Dylunio Gardd; gwaith Dyfodol Treftadaeth Ddiwylliannol; Dolen Cymuned Dyffryn a'r Pillgwenlli; Cysylltiadau gyda Fusion; Cysylltiadau gyda phrosiect Pont Gludo Casnewydd a ariennir gan HL-F (yn canolbwyntio ar y gymuned); Living Levels; a phrosiect HAPPy a ariennir gan y Gronfa Iach ac Egnïol a ddarperir mewn partneriaeth â chyllid gan Lywodraeth Cymru. |
| **Dinefwr, Llandeilo** | **Mencap:** Mae'r gwaith gyda'r grŵp Mencap lleol yn mynd rhagddo ers rhagor na 16 o flynyddoedd. Cysylltiadau gyda chymuned Llandeilo. |
| **Gerddi Dyffryn, Bro Morgannwg** | Datblygu cysylltiadau gyda Threftadaeth Caer i ddarparu cyfleoedd archaeolegol ar y safle.<br><br>Agorwyd y safle i fudiad Gweithredu dros Deuluoedd (Family Action) oedd yn cynnal 'Picnic Anghenfil i'r Teulu'. Daeth grwpiau Gweithredu dros Deuluoedd ledled Cymru a'u grwpiau lleol i'r digwyddiad, |
| **Rhaeadr Aberdulais, Aberdulais** | Sefydlu a meithrin cysylltiadau gyda pharc agos |

**Atodiad 2:**
**Trosolwg o weithio ehangach mewn partneriaeth**
O'r 13 corff cyhoeddus isod, mae gennym neu rydym yn datblygu partneriaethau gwaith ac yn creu cysylltiadau â nhw:

| Sefydliad | Math o berthynas | enghraifft |
|---|---|---|
| Amgueddfa Cymru | Ar hyn o bryd, cysylltiadau anffurfiol, *ad hoc* | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Cyllidwr | Prosiect Celf y Penrhyn a rhaglenni peilot y celfyddydau ledled Cymru. |
| Byrddau Iechyd Lleol / Iechyd Cyhoeddus Cymru Ymddiriedolaeth y GIG | Peilota ffyrdd o weithio.<br>Yn edrych ar botensial ar hyn o bryd<br>Partneriaethau. | Atgyfeiriad i ymarfer corff – Eryri.<br>Trafodaethau Cynnar gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ynglŷn â chyfleoedd a lles staff.<br>Presgripsiynu Gwyrdd a mynediad at ofod – gweithio mewn partneriaeth gyda Chonwy.<br>Partneriaeth gyda Thîm Iechyd Parc Caia - Erddig.<br>Mae YG Cymru'n aelod o 'Beth am Symud Gogledd Cymru'. Ar hyn o bryd, rydym yn aelod o'u pwyllgor llywio, llif gwaith y Gweithgareddau Gwyrdd a'r llif gwaith plant a phobl ifanc |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Gweithio ar y cyd. | Gwaith curadurol a chyfleodd ymchwil e.e. hyfforddi gwirfoddolwyr i wneud gwaith ymchwil |
| Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol | Partneriaeth | Eryri |
| Awdurdodau Lleol | Partneriaeth<br><br>Peilot<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Partneriaeth | Addasiad Arfordirol Llŷn.<br>Awdurdod lleol Conwy - buom yn gweithio gyda chynghorydd lleol, staff adran Gofal Cymdeithasol ac Addysg ac Is-bennaeth er mwyn ennyn diddordeb pobl ifanc i gyd-ddatblygu rhaglen yr Awyr Agored er Lles. Ymgynghoriad cychwynnol gyda phobl ifanc wedi ei gadarnhau yn eu diddordeb mewn rhaglen o'r fath.<br>Awdurdod lleol Wrecsam drwy Brosiect Academïau Gwyrdd<br>Cyngor Cymuned Offa |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Partneriaeth | Uwch Conwy<br>Eryri<br>Sir Benfro<br>Gŵyr |
| Sport Wales | Partneriaeth | 'Codi Calon yn yr Awyr Agored'<br>Darpariaeth gofod ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau i bob oed a gallu e.e. ParkRun; reidiau beic Breeze UK i fenywod a phlant. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Sefydliad ymgyrchu dros ddiogelwch ac ymwybyddiaeth wrth wersylla Mentro'n Gall Cymru. |
| Llywodraeth Cymru | Partneriaeth<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Cyfranogwyr yn y Prosiect Uchelgais Diwylliannol, wedi ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru. | Ynni cymunedol - rhoi cymorth ac arbenigedd er mwyn sefydlu cynlluniau ynni cymunedol e.e. Abergwyngregyn a Bethesda. Prosiect Llanberis lle rhoesom ein hamser yn ddi-dâl i reoli'r prosiect gyda'r gymuned.<br><br>Hefyd y cynllun "Ynni lleol" ledled Bethesda ac Eryri lle buom yn gweithio gyda'r gymuned a phartneriaid eraill nid yn unig i drafod y gwerth gorau am gyflenwad trydan i ragor na 100 o gartrefi, ond gweithio gyda nhw i werthu'r ynni y maen nhw'n ei gynhyrchu fel cymuned er mwyn sicrhau eu bod yn ffynnu ac ail-fuddsoddi yn y gymuned.<br><br><br>Mae Tŷ Tredegar ac Erddig eiddo cynnal lleoliadiau. Rydym yn gobeithio ehangu'r safleoedd sy'n cymryd rhan yn y garfan nesaf. |